**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMSS/00504/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

7 Medi 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich cais i gael diweddariad i'm gohebiaeth flaenorol, dyddiedig 10 Ionawr 2023, ynghylch ystyriaethau cyflwyno cofrestr genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Amlinellodd fy llythyr blaenorol waith a wnaed gan swyddogion i archwilio ymarferoldeb cyflwyno cofrestr gofalwyr. Eglurodd hefyd na fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru gael mynediad at ddata a gedwir ar ofalwyr unigol gan awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd heb gael cydsyniad pob unigolyn i ddefnyddio ei ddata at ddibenion eraill. Byddai gwneud hynny'n dasg gymhleth a llafurus. O ganlyniad, byddai'n ofynnol i ofalwyr di-dâl gofrestru ar gofrestr Llywodraeth Cymru hefyd. Byddai awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr yn parhau i ddal eu rhestrau ar wahân. Efallai na fydd rhai pobl yn gweld gwerth cofrestru ar gyfer mwy nag un rhestr ac ni ellid defnyddio cofrestr a gynhyrchir fel hyn i gasglu data cyfredol a chywir ar ofalwyr di-dâl yng Nghymru.

Er y gellid defnyddio'r rhestr i ledaenu gwybodaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru i'r rhai sydd wedi cofrestru, ni allem warantu y byddai'n cyrraedd mwy o ofalwyr na'r rhai sydd eisoes wedi cofrestru â chronfeydd data eraill. Trafodwyd y mater yng ngrŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl ar 16 Mawrth.

Ers hynny, mae swyddogion wedi llunio rhestr o'r cydgysylltwyr ar gyfer yr holl restrau gwahanol o ofalwyr a gedwir. Drwy'r drefn hon, gallwn gyrraedd pob gofalwr di-dâl sydd wedi cofrestru â'r rhestrau hyn.

Rydym hefyd wedi derbyn gwybodaeth am gost y flwyddyn gyntaf ar gyfer sefydlu a chynnal rhestr genedlaethol gan Cymunedau Iechyd Digidol Cymru. Byddai rhwng £100,000 a £237,000, gan ddibynnu ar y nifer sy'n dewis cofrestru a lefel y diogelwch a roddir i ddefnyddwyr. Byddai hefyd angen ymgyrch gyhoeddusrwydd/ymwybyddiaeth fawr i gynyddu nifer y gofalwyr di-dâl sy'n cofrestru â'r gronfa ddata, a hynny ar gost ychwanegol.

Rydych yn ymwybodol o'r pwysau ariannol sylweddol rydym yn eu hwynebu yng nghyllideb 2023-24, ac wrth barhau â'r paratoadau ar gyfer rownd cyllideb 2024-25. Ni nodwyd cyllid ar

gyfer y prosiect hwn eto. O ystyried bod llai o ddefnyddioldeb i'r gofrestr fel y'i rhagwelwyd yn wreiddiol, a'r lefelau uchel o gyllid y byddai'i angen i'w sefydlu a'i rhedeg, efallai ei bod yn anodd ystyried hon yn gost y gellir ei chyfiawnhau ar hyn o bryd. Mae swyddogion wedi ymgysylltu â Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i'w gwneud yn ymwybodol o'r sefyllfa hon. Roeddent yn cydnabod na fyddai cofrestr, fel y'i disgrifiwyd, yn dod â'r gwerth ychwanegol a ddisgwyliwyd a mynegwyd barn bod anghenion brys eraill gofalwyr di-dâl yn fwy o flaenoriaeth i'w sefydliadau.

Nid oes penderfyniad pendant wedi'i wneud eto gan fy mod am ddod â'r pwnc gerbron y Grŵp Cynghori Gweinidogol drachefn ar 25 Medi.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Deputy Minister for Social Services